# ADRODDIAD GORFODI

| | |
|---|---|
| **COD RHIF:** | ENF/2013/00026<br>C47/2013/00133 |
| **LLEOLIAD:** | Tŷ Capel, Waen, Llanelwy, LL17 0DY |
| **TROSEDD:** | Creu mynedfa i gerbydau i ffordd ddosbarthiadol heb awdurdod |

## POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH**
Polisi RD1 - Datblygiad Cynaliadwy a Dylunio o Safon Dda

**Canllawiau'r Llywodraeth**
Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 5 (Tachwedd 2012)
Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 9 - Gorfodi Rheolau Cynllunio

**YSTYRIAETHAU HAWLIAU DYNOL**

Rhoddir ystyriaeth i ddarpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998 wrth ystyried cymryd camau gorfodi yn erbyn datblygiad heb ei awdurdodi, defnydd heb ei awdurdodi a materion eraill cysylltiedig.

Yn yr achos penodol hwn, materion yn ymwneud â hawliau perchennog (neu unigolyn sydd â buddiant mewn tir), i drawsnewid mynedfa bresennol i gerddwyr yn fynedfa letach ar gyfer cerbydau, heb ganiatâd cynllunio.

Yn y sefyllfa hon, nid yw hawliau perchennog (neu unigolyn sydd â buddiant yn y tir), yn drech na hawliau'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau ein bod yn datrys achosion o dorri rheolau cynllunio.

Nid oes unrhyw faterion hawliau dynol wedi'u codi yn yr achos arbennig hwn.

### 1. GWYBODAETH GEFNDIR

1.1 Mae Tŷ Capel wedi'i leoli yn gyfagos i ffordd y B5429 yn Waen, Llanelwy mewn safle sy'n agos at dro yn y ffordd sydd â gweledefdd isel. Mae'r annedd hwn ym meddiant gofalwyr Capel y Waen gerllaw. Mae'r capel yn uned gynllunio sydd ar wahân i Tŷ Capel.

1.2 Ym mis Mai 2013, derbyniodd Swyddog Cydymffurfio'r Cyngor wybodaeth bod mynedfa i gerbydau wedi'i chreu tuag at Tŷ Capel, lle mai dim ond mynediad i gerddwyr oedd yn arfer bodoli **(gweler y lluniau isod)**. Hysbyswyd yr Adran Briffyrdd hefyd fod y fynedfa wedi'i chreu ac adroddwyd bod rhan o'r gwrych wedi'i dorri i lawr i ganiatáu mynediad i gerbydau. Nodwyd mai pwrpas y gwaith oedd ceisio darparu modd i geir oedd yn ymweld â Chapel y Waen gerllaw barcio a throi.

1.3 Mae delweddau Google a dynnwyd yn 2009 yn cadarnhau'n glir mai dim ond mynediad i gerddwyr oedd i Tŷ Capel a Chapel y Waen cyn y gwaith heb ei awdurdodi **(gweler y lluniau canlynol)**

1.4 Ysgrifennodd Swyddog Cydymffurfiaeth at Ymddiriedolwyr y Capel ym mis Mehefin 2013 gan egluro bod angen caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth priffyrdd i greu mynedfa i gerbydau i ffordd ddosbarthiadol. Mae'r Swyddog Cydymffurfio wedi ceisio

sicrhau datrysiad gwirfoddol i'r achos difrifol hwn o dorri rheolau cynllunio a phriffyrdd am y 7 mis diwethaf, ond heb lwyddiant.

1.5 Gofynnwyd am farn gan Swyddogion Priffyrdd y Cyngor ym mis Tachwedd 2013, a fyddent yn edrych yn ffafriol ar gais ôl-weithredol i gynnal y fynedfa pe bai'n cael ei gyflwyno (er nad yw Ymddiriedolwyr y Capel wedi gwneud unrhyw gynnig i wneud hynny). Ymateb y Swyddogion oedd na fyddent yn edrych yn ffafriol ar gynnig oherwydd: -

(i) Nid yw'r safle'n cynnig gwelededd digonol wrth y fynedfa i'r briffordd, ac
(ii) Nid oedd digon o le o fewn cwrtil y safle i ddarparu lle parcio a throi i gerbydau.

1.6 Gofynnwyd i'r Adran Briffyrdd a oedd y fynedfa newydd i gerbydau'n achosi mwy neu lai o berygl i ddefnyddwyr y briffordd na'r parcio cyfochrog wrth ochr y ffordd, a oedd wedi digwydd yn flaenorol. Y farn a roddwyd oedd bod y fynedfa newydd i gerbydau yn fwy peryglus am y rhesymau a amlinellwyd yn 1.5.

1.7 Cyflwynwyd Rhybuddion Adran 330 ar 16 Ionawr, 2014, mewn ymgais i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â pha unigolion oedd â'r pŵer i wneud penderfyniadau ynglŷn â Tŷ Capel a Chapel y Waen. Cafodd y rhain eu dychwelyd i'r adran Gyfreithiol gan gwestiynu hawl yr awdurdod hwn i'w cyflwyno. Cafodd y Rhybuddion eu dychwelyd i'r unigolion eu llenwi a'u dychwelyd, gan nodi'n glir bod deddfwriaeth cynllunio'n caniatáu i'r gwasanaeth gyflwyno Rhybudd A.330 dan amgylchiadau lle mae angen rhoi eglurhad dros berchnogaeth y tir; fel yn yr achos hwn.

1.8 Mewn ymgais i gynorthwyo'r Capel ac annog cydymffurfiaeth wirfoddol, mae'r Swyddog Cydymffurfio a'r Swyddog Priffyrdd wedi trafod opsiynau eraill posibl ar gyfer parcio ceir yn y lleoliad hwn. Mewn llythyr a anfonwyd at un o gynrychiolwyr y Capel dyddiedig 22 Ionawr, 2014, cafodd dau bosibilrwydd eu crybwyll. Nodwyd y byddai'n dal angen caniatâd cynllunio ar gyfer y ddau awgrym. Pwysleisiwyd hefyd, er nad oedd y ddau opsiwn yn rhydd o unrhyw broblemau posibl y byddai angen eu goresgyn, teimlwyd y byddent yn sail ar gyfer trafodaeth, os gellid cytuno i gau'r fynedfa i gerbydau ac adfer y fynedfa i gerddwyr:

Opsiwn 1 i'w drafod – Archwilio'r posibilrwydd o ailosod y gwrych ymhellach yn ôl o'r ffordd; gan felly ganiatáu lle parcio lletach ar ochr y ffordd na'r hyn oedd yn bodoli o'r blaen.

Opsiwn 2 i'w drafod – Archwilio'r posibilrwydd i dirfeddiannwr y tir y tu ôl ddarparu darn bach o dir er mwyn creu lle parcio oddi ar y stryd mewn man mwy diogel ar y ffordd.

1.9 Y mater sylfaenol i'w ystyried yn y mater hwn yw ymagwedd ddiogelwch y fynedfa bresennol sydd heb ei hawdurdodi. Nid yw'r Swyddogion Priffyrdd yn ystyried ei bod yn ddiogel i ddefnyddwyr eraill y briffordd. Fodd bynnag, ni fu unrhyw symudiad i'w diogelu ac felly mae'n parhau i fod yn berygl arwyddocaol iawn i ddefnyddwyr y ffordd.

1.10 Dylid nodi fod Asiant Cynllunio wedi cysylltu â'r Swyddog Cydymffurfio ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad hwn, a ddywedodd ei fod wedi'i benodi i weithredu ar y mater hwn. Cyfeiriodd at y "posibilrwydd" o gyflwyno cais ôl-weithredol. Er y gobeithir fod penodi Asiant Cynllunio yn ddatblygiad addawol, mae pryder gan nad yw'r ceisiadau i wneud yn iawn am yr achos o dorri rheolau cynllunio a phriffyrdd wedi arwain at unrhyw gamau gweithredu dros y 7 mis diwethaf. Am y rheswm hwn, mae'r adran yn teimlo bod yn dal angen argymell awdurdodi camau gorfodi. Fodd bynnag, byddai awdurdod o'r fath, os caiff ei roi yn cael ei ddal yn ôl hyd nes y cyflwynir cais neu y cydymffurfir mewn modd arall o fewn amserlen resymol. Pwysleisir na fyddai awdurdod o'r fath gan y Pwyllgor yn rhagfarnu ar geisiadau a wneir yn y dyfodol mewn perthynas â'r mater hwn.

## 2. RHESYMAU DROS GYHOEDDI HYSBYSIAD GORFODI

2.1 Mae'r datblygiad anawdurdodedig wedi digwydd o fewn y pedair blynedd diwethaf.

2.2 Nod Polisi RD1, sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych a fabwysiadwyd, yw sicrhau bod unrhyw ddatblygiad yn parchu'r safle a'r cyffiniau o ran lleoliad, gosodiad, ffurf a dwysedd defnydd. Ei nod hefyd yw darparu mynediad diogel a sicrhau nad yw datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol. Wrth ystyried y ffactorau polisi hyn, ynghyd â barn y Swyddogion Priffyrdd, a oedd yn amlygu peryglon y fynedfa newydd i gerbydau, mae'n amlwg na ellir datrys yr achos hwn o dorri rheolau cynllunio a phriffyrdd drwy gyflwyno cais ôl-weithredol i gadw'r fynedfa i gerbydau.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Rhoi awdurdod i gyflwyno Rhybudd Gorfodi mewn amgylchiadau lle **nad** yw cais/ceisiadau sy'n ceisio rheoleiddio neu ddatrys achos o dorri rheolau cynllunio a phriffyrdd yn cael eu cyflwyno o fewn un mis i'r awdurdod gael ei roi. Byddai Rybudd o'r fath yn gorchymyn y dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio'r fynedfa i gerbydau a'i hailsefydlu fel mynedfa i gerddwyr yn unig.

3.2 Cymryd camau i erlyn lle bod unrhyw unigolyn y cyflwynir Rhybudd Gorfodi arno, yn methu neu'n gwrthod cydymffurfio â gofynion y rhybudd hwnnw.